**Editorial**

Welcome to the first edition of Wrexham Nexus or Wrexham Nexus 1.1. We would like to extend our gratitude to all those who have made this first volume possible. First, our four contributors, a wonderful cross section of our Wrexham University research community including research students, early career researchers, some of our more established colleagues, and library colleagues. Second, a grateful thanks to our peer reviewers. They have provided insightful critiques and encouragement to our authors and helped to shape this volume in a scholarly and constructive manner. Finally, thank you to the Research Office who have supported us both through providing us with time and funding to ensure this project comes to fruition. We hope this volume encourages our students and colleagues to contribute to the next edition of Wrexham Nexus. Please do volunteer to be part of this opportunity to showcase the research culture at Wrexham University through submitted papers, book reviews, resource reviews, and peer reviewing.

In this edition, we have four papers presenting original research. The first is by Monty Kennard and Catrin Street-Mattox, 'Autism as Disorder, Difference, and Identity: The Structural Incoherence of a Hybrid Framework'. Employing a conceptual review, the researchers find that differential diagnosis of autism lead to different level of support. The authors suggest that greater structural and conceptual clarity is required to tackle inequities across the spectrum of support needs.

The second article is by Chris Bellis and explores practitioners' perspectives on the readiness of graduates to enter the physiotherapy workspace: 'Understanding the 'preparedness' of physiotherapy graduates in Wales: a pilot qualitative study'. A successful application for funding to Research Capacity Building Collaboration Wales (RCBC) enabled Chris to undertake this work, and we can read about one of the outcomes from this funded project within this article. This article demonstrates the importance of student placement for developing confident and competent practitioners and makes practical suggestions for how this can be developed for students in training.

The third article by Morgaine Jeffreys-Evans presents a content analysis and results of semi-structured interviews “Exploring the Overmedicalisation of Antidepressant Medication”. The article demonstrates a divergence between government policy, NICE recommendations, and practice, potentially leading to overprescription. Practical steps are suggested for dealing with this identified gap between intention and reality.

The fourth article is by Kristian Weaver and Ella Dyke, and brings us back to physiotherapy, ‘Breaking Down Cheer: Unveiling Common Injuries Among Adult Allstar Cheerleading Athletes in the United Kingdom’. Using a questionnaire, the researchers established that upper limb and head/face injuries were most common, which represents a difference to that presented in the current literature. The implications are discussed for practitioners within the field of Allstar Cheerleading and those who deal with incurred injuries.

All four article explore very different topics employing different methods, from literature reviews and interviews to questionnaires, underpinned by different methodological approaches. What all the articles have in common is their practical orientation. Each contribution offers a perspective on how we can improve practice, from developing a more conceptually inclusive model for diagnosing and supporting autistic people, to strengthening the confidence of newly qualified physiotherapists, reducing the overmedicalisation of antidepressants, and more effectively targeting injury rehabilitation for Allstar cheerleaders. This is the ethos of our research at Wrexham University: how can our research have a profound impact on practice?

Prof. Mandy Robbins and Dr Emma Harrison
May 2026

**Golygyddol**

Croeso i rifyn cyntaf Nexus Wrecsam neu Nexus Wrecsam 1.1. Hoffem fynegi ein diolchgarwch i bawb sydd wedi gwneud y gyfrol gyntaf hon yn bosib. Yn gyntaf, i'n cyfranwyr, trawstoriad hyfryd o'n cymuned ymchwil ym Mhrifysgol Wrecsam, gan gynnwys myfyrwyr ymchwil, ymchwilwyr gyrfa gynnar, rhai o'n cydweithwyr sydd wedi hen sefydlu eu hunain, a chydweithwyr llyfrgell. Yn ail, diolch yn fawr i'n holl gymheiriaid adolygu. Maent wedi darparu darnau beirniadol llawn dealltwriaeth ac anogaeth i'n hawduron ac wedi helpu i lunio'r gyfrol hon mewn modd ysgolheigaidd ac adeiladol. Yn olaf, diolch i'r Swyddfa Ymchwil sydd wedi ein cefnogi ni drwy ein darparu gydag amser ac ariannu er mwyn sicrhau bod y prosiect hwn yn dwyn ffrwyth. Gobeithiwn fod y gyfrol hon yn annog ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i gyfrannu at y rhifyn nesaf o Nexus Wrecsam. Cofiwch wirfoddoli i fod yn rhan o'r cyfle hwn i arddangos y diwylliant ymchwil ym Mhrifysgol Wrecsam drwy gyflwyno papurau, adolygu llyfrau, adolygu adnoddau a bod yn un o'n cymheiriaid adolygu.

Yn y rhifyn hwn, mae gennym bedwar papur sy'n cynrychioli gwaith ymchwil gwreiddiol. Mae'r cyntaf gan Monty Kennard a Catrin Street-Mattox, 'Awtistiaeth fel Cyflwr, Gwahaniaeth a Hunaniaeth: Anghysylltiad Strwythurol Fframwaith Hybrid'.
O fabwysiadu adolygiad cysyniadol, mae'r ymchwilwyr yn canfod bod diagnosis gwahaniaethol o awtistiaeth yn arwain at wahanol lefelau o gefnogaeth. Mae'r awduron yn awgrymu bod angen mwy o eglurder strwythurol a chysyniadol er mwyn mynd i'r afael ag anghyfartaledd ar draws y sbectrwm o anghenion cefnogaeth.

Mae'r ail erthygl gan Chris Bellis, ac mae'n archwilio safbwyntiau ymarferwyr ar barodrwydd graddedigion i fynd mewn i'r gweithle ffisiotherapi: 'Deall 'Parodrwydd' Graddedigion Ffisiotherapi yng Nghymru: astudiaeth ansoddol beilot. Galluogodd cais ariannu llwyddiannus i Gydweithrediad Cynyddu Gwaith Ymchwil Cymru (RCBC) i Chris ymgymryd â'r gwaith hwn, a gallwn ddarllen am un o'r deilliannau o'r prosiect hwn a ariannwyd o fewn yr erthygl hon. Mae'r erthygl yn dangos pwysigrwydd lleoliad myfyriwr ar gyfer datblygu ymarferwyr hyderus a chymwys ac yn gwneud argymhellion ymarferol ar gyfer sut y gall hyn gael ei ddatblygu ar gyfer myfyrwyr sy'n derbyn hyfforddiant.

Mae'r drydedd erthygl gan Morgaine Jeffreys-Evans yn cyflwyno dadansoddiad cynnwys a chanlyniadau cyfweliadau lled-strwythuredig yn "Archwilio Gorfeddyginiaethu Meddyginiaeth Gwrth-iselder". Mae'r erthygl yn dangos amrywiad rhwng polisi'r llywodraeth, argymhellion NICE, ac ymarfer, gan arwain o bosib at orfeddyginiaethu. Awgrymir camau ymarferol ar gyfer delio gyda'r bwlch hwn sydd wedi'i adnabod rhwng bwriad a realiti.

Mae'r bedwaredd erthygl gan Kristian Weaver ac Ella Dyke, ac mae'n dod â ni yn ôl at ffisiotherapi, 'Golwg Fanwl ar Godi Hwyl: Datgelu Anafiadau Cyffredin Ymysg Oedolion sy'n Athletwyr Codi Hwyl Allstar yn y Deyrnas Unedig'. Gan ddefnyddio holiadur, sefydlodd yr ymchwilwyr mai anafiadau i'r breichiau ac i'r pen/wyneb sy'n fwyaf cyffredin, sy'n cynrychioli gwahaniaeth i'r hyn a gyflwynir yn y llenyddiaeth gyfredol. Trafodir y goblygiadau ar gyfer ymarferwyr o fewn maes Codi Hwyl Allstar a rhai sy'n delio gyda'r anafiadau a dderbyniwyd.

Mae pob un o'r pedair erthygl yn archwilio pynciau gwahanol iawn, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau, o adolygiadau llenyddiaeth a chyfweliadau i holiaduron, gyda dulliau methodolegol gwahanol yn sail iddynt. Yr hyn sydd gan yr holl erthyglau yma'n gyffredin yw eu cyfeiriadedd ymarferol. Mae pob cyfraniad yn cynnig safbwynt ar sut y gallwn wella arfer, o ddatblygu model sy'n fwy cynhwysol yn gysyniadol ar gyfer rhoi diagnosis i bobl awtistig a'u cefnogi, i atgyfnerthu hyder ffisiotherapyddion sydd newydd gymhwyso, gan leihau gorfeddyginiaethu gwrth-iselyddion, a thargedu adferiad yn dilyn anaf yn effeithiol ar gyfer athletwyr codi hwyl Allstar. Dyma yw ethos ein hymchwil ym Mhrifysgol Wrecsam: sut all ein hymchwil gael effaith drawiadol ar arfer?

Yr Athro Mandy Robbins a Dr Emma Harrison
Mai 2026